

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd Claire Morris
Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Ebrill 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15 0300 200 6355
Seneddlechyd@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.15 – 09.30)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 **Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc:
Sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri
ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) a Chymdeithas Arweinwyr
Ysgolion a Cholegau (ASCL)**
(09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 – 7)
Rex Phillips, Swyddog Cenedlaethol Cymru, NASUWT
Tim Pratt, Cyfarwyddwr, ASCL Cymru

Briff Ymchwil
- 3 **Papurau i'w nodi**
(10.30)
 - 3.1 **Gwasanaethau y tu allan i oriau: Llythyr gan Gadeirydd Coleg Brenhinol yr
Ymarferwyr Cyffredinol Cymru – 5 Ebrill 2018**
(Tudalennau 8 – 9)

Papur 1



**3.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol ynglŷn ag oblygiadau posibl Gadael yr UE ar wasanaethau
iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru – 23 Mawrth 2018**

(Tudalennau 10 – 14)

Papur 2

**3.3 Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynglŷn ag
oblygiadau gadael yr UE – 22 Chwefror 2018**

(Tudalennau 15 – 17)

Papur 3

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(10.30)

**5 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc:
trafod y dystiolaeth**

(10.30 – 10.40)

**6 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Y wybodaeth
ddiweddaraf am weithdrefnau Cyfnod 2**

(10.40 – 11.10)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Health, Social Care and Sport Committee
HSCS(5)-12-18 Papur 1 / Paper 1



05 April 2018

Dai Lloyd AM
Chair, Health, Social Care and Sport Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Out of hours services

Dear Dai,

As you may be aware, Royal College of General Practitioners Wales has concerns about the provision of out of hours services. Gaps in rotas have made political and media headlines, and caused public concern. Out of hours needs to be an attractive place to work and we have concerns that this is not the case at the moment.

In Wales we talk about shifting resource to primary care, but when a patient is unable to access an out of hours service they are more likely to contact secondary care through the emergency services.

RCGP Wales believes there are immediate steps that could be taken to improve the situation. These include all out of hours organisations adopting home triage arrangements, an increase in the number of call handlers, the redirecting of patients to other parts of the health system at first encounter and a recognition by health boards of the key role out of hours services place across the health economy.

We would welcome the opportunity to discuss these issues with the Health, Social Care and Sport Committee to establish constructive ways to improve out of hours provision in Wales.

Best wishes,

Rebecca Payne.

Royal College of General Practitioners Wales Regus House Falcon Drive Cardiff Bay Cardiff CF10 4RU
Tel 020 3188 7755 Fax 020 3188 7756 email welshc@rcgp.org.uk web www.rcgp-wales.org.uk

Coleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru Tŷ Regus Rhodfa'r Hebog Bae Caerdydd Caerdydd CF10 4RU
Ffôn 020 3188 7755 Ffacs 020 3188 7756 ebost welshc@rcgp.org.uk web www.rcgp-wales.org.uk

Patron: His Royal Highness the Duke of Edinburgh Registered charity number 223106

Tudalen y pecyn 8

Dr Rebecca Payne
Chair, RCGP Wales

Eitem 3.2

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/0964/18

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mawrth 2018

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Chwefror at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch goblygiadau posibl Brexit i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwy'n ymateb yn rhinwedd fy nghyfrifoldeb yn fy mhortffolio dros Brexit a'i effaith ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, ni fydd agweddau sylweddol ar y setliad datganoledig wedi'u cyfyngu gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd mwyach. O blith y 64 maes a nodwyd sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru, mae 11 yn ymwneud yn uniongyrchol ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- Cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol;
- Organau;
- Diogelwch ac Ansawdd Gwaed;
- Meinwe a chelloedd (ac eithrio embryonau a gametau);
- Elfennau o ofal iechyd cilyddol;
- Rhyddid i symud o ran gofal iechyd (hawliau dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd i gael triniaeth ddewisol mewn Aelod-wladwriaeth arall);
- Elfennau o reoleiddio tybaco;
- Arfer da mewn labordai;
- Honiadau iechyd, cyfansoddiad a labelu mewn perthynas â maeth;
- Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diogelwch a hylendid bwyd; gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid).

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan weithredol mewn grwpiau a sefydlwyd gan Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Iechyd i asesu goblygiadau'r pwerau dychwelyd hyn, gan gynnwys yr angen posibl am fframweithiau ar gyfer y DU gyfan a threfniadau cydgyssylltu parhaus ledled y DU ar ôl Brexit. Er bod llawer o'r rhain ar gamau cynnar, bydd swyddogion yn ceisio diogelu buddiannau a hyrwyddo blaenoriaethau Cymru wrth i feddylfryd Llywodraeth y DU o ran polisi ddatblygu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 10

Yn ogystal ag ystyried y pwerau dychwelyd hyn, mae swyddogion yn adolygu mwy na 70 o eitemau o ddeddfwriaeth ddomestig Cymru y gall fod angen eu diwygio, a hynny'n bennaf ym meysydd iechyd y cyhoedd a safonau bwyd.

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Chonffederasiwn y GIG i ymhelaethu ar y prif risgiau i wasanaethau yng Nghymru. Mae Bwrdd Gweithredol GIG Cymru hefyd wedi nodi arweinwyr gwasanaeth ar gyfer y prif feysydd pryder, gan helpu i fynd i'r afael ag agweddau ar argymhelliad 3 adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol '*Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoui ar gyfer Brexit?*' Rydym wedi cynyddu'r llinellau cyfathrebu dwy-ffordd ar faterion yn ymwneud â Brexit, ac mae sefydliadau megis Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion i nodi pa systemau, fforymau a rhwydweithiau diogelu iechyd sydd mewn perygl os na fydd cytundeb. Mae trefniadau tebyg yn cael eu datblygu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Hyderaf fod hyn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â phrif randdeiliaid iechyd a gofal yng Nghymru i datblygu gwerthfawrogiad mwy cynhwysfawr o'r goblygiadau i ddarparu gwasanaethau a defnyddio'r wybodaeth a gesglir i fod yn sail i negodiadau gydag adrannau Llywodraeth y DU.

Hoffwn yn awr droi at y meysydd a amlygwyd gennych fel rhai sydd o bryder penodol i'r Pwyllgor:

Y goblygiadau i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn dilyn newidiadau i reolau mewnfudo

Mae un o'n chwe blaenoriaeth ar gyfer Brexit yn nodi'n glir y dylai unrhyw system fudo newydd gysylltu'n agosach â chyflogaeth er mwyn i ni allu recriwtio'r meddygon, y nyrsys a'r gweithwyr eraill sydd eu hangen arnom, gan amddiffyn ein cyflogaeth hefyd rhag camfanteisio.

Fel y nodwyd yn ein dogfen bolisi "Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl" a gyhoeddwyd ym mis Medi y llynedd, mae effaith bosibl Brexit ar wladolion yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol nid yn unig yn effeithio ar feddygon a nyrsys - mae hefyd yn debygol o effeithio ar broffesiynau gofal eraill, gan gynnwys cynorthwyr gofal iechyd a gweithwyr cymorth megis staff glanhau. Yn wir, mae effeithiau newidiadau i reolau mudo yn sgil Brexit yn debygol o gael eu teimlo gryfaf yn y rolau lle mae angen gweithwyr â llai o sgiliau yn y sectorau GIG a Gofal cymdeithasol.

Cytunodd Llywodraeth y DU ar y fargen cam 1 gyda'r Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2017, sy'n nodi'r statws setlo newydd ar gyfer dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y DU. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU wrthi'n dod i gytundeb ar destun cyfreithiol y cytundeb hwn gyda Senedd Ewrop. Er i Lywodraeth y DU gyhoeddi y bydd dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU ar hyn o bryd yn gallu aros, a bod hynny'n cael ei ystyried yn ddatblygliad cadarnhaol, mae'n bosibl y byddwn yn dal i weld cyfyngiadau ar niferoedd y mudwyr a fydd yn effeithio ar staff, yn arbennig y rhai ar gyfer grwpiau nad ydynt ar Restr Galwedigaethau â Phrinder Gweithwyr y DU.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod dros 1,400 o wladolion yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan GIG Cymru gyda thua 7% o feddygon yn dod o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynrychioli nifer sylweddol o staff hyfforddedig, cymwysedig ac ymroddedig na ellir eu disodli yn y tymor byr. Rydym yn gweithio gyda Chonffederasiwn GIG Cymru a Gweithwyr y GIG i ddadansoddi'r ffigur hwn fesul rôl allweddol. Yn ddiddorol ddigon, er bod niferoedd y nyrsys cofrestredig o'r Undeb Ewropeaidd a chofrestriadau

newydd wedi bod yn lleihau ar draws y DU ers y refferendwm, mae nifer y nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn GIG Cymru wedi cynyddu.

Byddwn yn sicrhau bod ein hymgyrch 'Hyfforddi, Gweithio, Byw' yn parhau i dargedu nyrsys yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd os bydd rheolau mewnfudo newydd yn caniatáu ar ôl 31 Mawrth 2019.

Nid yw data ar genedligrwydd gweithwyr yn y sector gofal iechyd yng Nghymru yn cael eu casglu, ond mae ffigurau 2016-17 ar gyfer rhanbarthau tebyg yn Lloegr (a gyhoeddwyd gan Skills for Care) yn awgrymu bod 3% o swyddi mewn gofal cymdeithasol wedi'u llenwi gan bobl o'r Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn dod o'r DU a bod 4% arall wedi'u llenwi gan bobl nad ydynt yn dod o'r UE ond gall hyn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y rôl. Er enghraifft, o ran nyrsys cofrestredig o fewn y sector gofal cymdeithasol, mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch gyda thua 8%-10% yn dod o'r Undeb Ewropeaidd a thua 12%-16% yn dod o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn faes lle mae pwysau sylweddol ar adnoddau eisoes.

Rydym felly'n dilyn yn fanwl y gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban i ragweld nifer y gwladolion o'r Undeb Ewropeaidd a'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn y sector gofal cymdeithasol yn yr Alban a byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau yn sail i gamau yng Nghymru.

Rydym hefyd yn mynd i'r afael ag ystod o heriau'n ymwneud â Brexit yn y rhaglen waith sydd ar y gweill gyda'r sector gofal cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwella termau ac amodau drwy wneud rheoliadau i gyfyngu ar y defnydd o gontractau dim oriau ac i wahaniaethu'n glir rhwng amser gofal ac amser teithio;
- Proffesiynoli'r gweithlu drwy ymestyn y gofynion cofrestru i weithwyr gofal cartref o 2018 ymlaen ac i weithwyr gofal preswyl oedolion o 2020 ymlaen;
- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru (rheoleiddiwr y gweithlu) yn ymgysylltu â'r sector i ddatblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu a chynllun sylfaenol er mwyn nodi'r adnoddau a'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol a mynd i'r afael â hynny;
- Ymrwymiad i godi proffil a statws y gweithlu gofal cymdeithasol - mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datblygu ymgyrch denu, recriwtio a chadw a disgwylir iddi gael ei lansio yn yr hydref.

Yn ogystal â'n hymgysylltiad uniongyrchol â Llywodraeth y DU a nodais uchod, mae Confederasiwn GIG Cymru, Cyflogwyr GIG Cymru a Skills for Care yn rhan o Glymblaid Cavendish sy'n cwmpasu'r DU gyfan ac sy'n ymgyrchu'n frwd dros fesurau i helpu i liniaru problemau'n ymwneud â phrinder posibl yn y gweithlu ar ôl Brexit. Rydym yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau bod barn Cymru yn cael ei chyfleu yn glir ac yn gyson.

Bydd sicrhau bod cymwysterau proffesiynol yn parhau i gael cydnabyddiaeth gilyddol ar ôl Brexit yn hollbwysig i symudiad staff iechyd a gofal. Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn arwain y negodiadau ar ran Llywodraeth y DU ac mae arweinydd o'r adran Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol yn gwneud hynny ar ran Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae swyddogion iechyd yn cymryd rhan weithredol yn y trafodaethau fframwaith, sydd hefyd yn cynnwys swyddogion o weinyddiaethau datganoledig eraill. Er nad yw cymwysterau gweithwyr iechyd proffesiynol wedi'u datganoli, mae gofal cymdeithasol wedi'i ddatganoli a Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer cofrestru rolau yng Nghymru. Gan y gall polisi gofal cymdeithasol yng Nghymru fod yn wahanol i'r polisi yn Lloegr, bydd fy swyddogion yn sicrhau bod gofynion Cymru yn cael eu bwydo i'r trafodaethau a'r negodiadau parhaus ar y gydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol

Cydweithio ac Arloesi mewn Gwaith Ymchwil

Mae gwledydd a rhanbarthau ar draws y byd yn wynebu heriau iechyd a gofal sylweddol a chyffredin. Nid yw clefydau yn cydnabod ffiniau cenedlaethol ac ni ellir goresgyn ein heriau ar ein pen ein hunain. Mae cydweithredu trawsffiniol parhaus ar ymchwil, datblygu ac arloesi, (yn bennaf drwy raglen Horizon 2020 ar hyn o bryd), yn arbennig o bwysig a dylai barhau ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi cyfleoedd i weithwyr proffesiynol a busnesau iechyd a gofal gydweithredu a chydweithio tuag at nodau cyffredin.

Rydym o blaid gweld Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau cyfranogiad parhaus gan y GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol yn Horizon 2020 a'r rhaglenni olynol. Byddwn hefyd yn gwneud sylwadau penodol i sicrhau mynediad parhaus i'r 3^{edd} Rhaglen Iechyd ac unrhyw olynnydd.

Rydym am i'n hymchwilyr a'n harloeswyr gofal iechyd parhau i weithio gyda phartneriaid ledled Ewrop a thu hwnt gan adeiladu ar lwyddiannau fel ein statws safle cyfeirio 4 seren yn y Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd ar Heneiddio'n Egniïol ac Iach. I'r diben hwn, rydym yn cryfhau ein cysylltiadau uniongyrchol â sefydliadau eraill yn Ewrop drwy bartneriaethau gydag, er enghraifft, Gwlad y Basg yn Sbaen. Rydym hefyd yn chwarae rhan weithgar mewn nifer o rwydweithiau Ewropeaidd, megis Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol a Lleol Ewropeaidd (EUREGHA). Mae Ecosystem Iechyd Digidol Cymru, sy'n gorff newydd, yn aelod o Gynghrair European Connected Health (ECH), gan gysylltu ag 20 o ecosystemau ledled Ewrop, yr Unol Daleithiau, Canada a Tsieina gyda'r nod o rannu arfer da, datblygu perthnasau a gweithio mewn partneriaeth lle ceir cydfuddiannau.

Ym meysydd atal clefydau, iechyd y cyhoedd a rheoleiddio technolegau iechyd, mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ar faterion rheoleiddio a chyflenwi yn ymwneud â meddyginiaethau a dyfeisiau. Er nad yw'r agweddau rheoleiddiol wedi'u datganoli, byddwn yn parhau i bwysu am gydweithredu parhaus clos rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod gan gleifion o Gymru fynediad amserol i'r cyffuriau a'r datblygiadau newydd diweddaraf a bod busnesau gwyddor bywyd Cymru yn gallu cael mynediad i farchnadoedd newydd er mwyn arloesi a thyfu. Mae MHRA hefyd yn ceisio nodi cyffuriau a brechlynnau y gall eu cyflenwad a'u hargaeledd fod mewn perygl os na ddeuir i gytundeb, gan ein galluogi i nodi'n fwy manwl gywir y risgiau i wasanaethau yng Nghymru.

Trefniadau gofal iechyd cilyddol

Nododd yr adroddiad ar y cyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar y cynnydd yn ystod cam 1 o'r negodiadau y bydd gwladolion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU ar hyn o bryd yn gallu parhau i fyw yn y DU, ac y bydd gwladolion o'r DU sy'n byw yn yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn dal i allu byw dramor a chael yr un mynediad i ofal iechyd ag sydd ganddynt nawr. Nododd yr adroddiad hefyd fod perswylwyr y DU - sy'n byw yn yr Undeb Ewropeaidd dros dro (ac i'r gwrthwyneb) ar y dyddiad ymadael - yn parhau i fod yn gymwys i gael ad-daliad gofal iechyd o dan gynllun y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC). Mae trefniadau ar gyfer y dyfodol yn amodol ar ragor o negodi. Mae trafodaethau cychwynnol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU wedi cael eu cynnal ac mae rhagor o weithdai manwl wedi'u trefnu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth y DU ar hawliau preswylwyr Cymru i gael mynediad i ofal iechyd ar ôl y dyddiad ymadael.

Cyllid

Gydag iechyd a gofal cymdeithasol yn cymryd y gyfran fwyaf o gyllideb Llywodraeth Cymru, byddai unrhyw ddirywiad ym mherfformiad economi ehangach y DU yn creu rhagor o bwysau. Byddwn yn parhau i ddadlau'r achos dros Lywodraeth y DU yn negodi canlyniadau sy'n lleihau unrhyw ddirywiad economaidd i bobl Cymru.

Yn nes adref, mae Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi Cronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd, wedi'i chefnogi gan swm cychwynnol o £50 miliwn. Caiff hyn ei ddatblygu mewn partneriaeth â busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau allweddol eraill yng Nghymru, i ddarparu cymorth wedi'i deilwra wrth i'r DU baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r cyllid hwn ar gyfer prosiectau arloesol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth uchod yn rhoi sicrwydd ichi fy mod i a'm cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y broses o adael yr UE, ac yn ceisio sicrhau cydweithrediad parhaus yn y meysydd uchod, lle bynnag a phryd bynnag y bydd y cyfle'n codi.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales

Health, Social Care and Sport Committee

Mark Drakeford AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

22 Chwefror 2018

Annwyl Mark

Yn ystod hydref 2016, sefydlodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gyfres o amcanion strategol ar gyfer y Pumed Cynulliad a chytunodd i ystyried ei holl waith yng nghyd-destun yr amcanion hyn. Rwy'n ysgrifennu atoch yn eich capasiti fel Cadeirydd Grŵp Cyngori Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ac mewn perthynas â'n pumed amcan strategol – ystyried goblygiadau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ym mis Tachwedd 2016, cododd y Pwyllgor y mater o ran y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017–18. Ar y pryd, gwnaethom ddweud bod angen bod yn hyderus bod gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer nifer o bosibiliadau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â meysydd allweddol megis staffio, ymchwil, rheoleiddio a chyllido. Ystyriwyd ymhellach oblygiadau Brexit yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19.

Roedd ein hadroddiad i Recriwtio meddygol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017, yn edrych ar oblygiadau Brexit i recriwtio meddygol. Yn ystod ein gwaith o gasglu tystiolaeth, mynegwyd pryderon ynghylch canlyniadau posibl ac ansicr iawn Brexit ar staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Daethom i'r casgliad fod angen trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU i egluro gallu gwladolion yr Undeb Ewropeaidd i barhau i weithio yn y DU, yn ogystal â gallu gweithio fel gweithwyr proffesiynol ym maes meddygaeth yng Nghymru yn y dyfodol.




Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi cyhoeddi ei adroddiad 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoli ar gyfer Brexit?' yn gynharach y mis hwn. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ataf i dynnu sylw penodol at adrannau 3.2 a 3.4 o'r adroddiad, sy'n gwneud sylwadau ar newidiadau i reolau mewnfudo a goblygiadau i iechyd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi nodi cryfder y pryder a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch atal clefydau, rheoleiddio technolegau iechyd, trefniadau gofal iechyd dwyochrog, a chydweithredu ac arloesi ymchwil. Rydym hefyd wedi nodi, yn eich tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, eich bod yn dweud bod y goblygiadau i iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cael sylw gan uwch-swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru ac yn cael eu cydgysylltu drwy Is-bwyllgor y Cabinet a'r Grŵp Swyddogion Trawsnewid Ewropeaidd.

Trafododd yr Aelodau y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ystod ein cyfarfod ar 14 Chwefror. Yn dilyn y drafodaeth honno, hoffwn ofyn ichi roi gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cydweithrediad parhaus gyda'r Undeb Ewropeaidd ar y materion a amlinellir uchod ac ar faterion eraill fel cydnabod cymwysterau meddygol, cynnal cysylltiadau ymchwil meddygol, a chydweithrediad parhaus ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Cofion cynnes



Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Copi at:

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol